

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Tachwedd 12fed 2013 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Gwilym Davies, Geraint Davies, Geraint Jones, Rhys Richards, Euros Puw, Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Safle Ysgol Y Parc.

Cafwyd diweddariad gan y clerch o'r datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf. Roedd Pwyllgor y Neuadd wedi paratoi Cynllun Busnes a chytunwyd ar y manylion i'w gynnwys yn y les rhwng y Pwyllgor a'r Cyngor Cymuned.

Roedd swyddogion Cyngor Gwynedd am gyflwyno'r dogfennau i'r pwyllgorau perthnasol a disgwyllir cael eu hymateb yn fuan.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

i) Roedd y Bartneriaeth wedi arwyddo prydles Canolfan yr Henblas ac wedi hysbysebu am adeiladwyr i wneud y gwaith. Roedd y swyddog marchnata wedi cychwyn ar y gwaith o hybu a marchnata'r fenter ac roedd bwriad i geisio am ragor o grantiau i gryfhau'r gyllideb.

b) Cyngor Gwynedd

i) Prosiect Cymunedol Cyngor Gwynedd - trafodwyd cynnig Cyngor Gwynedd i baratoi biniau halen ac offer clirio rhew ac eira fel bod y bobl leol yn gallu cydweithio mewn tîm i glirio'r palmentydd. Teimlai'r cynghorwyr mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd oedd clirio palmentydd ac nid oeddynt yn gyfforddus mewn rhoi'r cyfrifoldeb i bobl leol rhag ofn i rywun frifo (er bod Cyngor Gwynedd gydag yswiriant cyfrifoldeb cyhoeddus ar gyfer y cynllun). Hefyd byddai'n anodd cadw'r palmentydd yn glir os fyddai'r loriau graeanu yn gwthio'r eira o'r ffyrdd arnynt.

ii) Derbyniwyd gwahoddiad i yrru sylwadau ar y 'Ddogfen ymgynghorol ar bwerau i gynyddu'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi'.

iii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Hydref.

iv) Copïau o'r Newyddlen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd Hydref 2013.

v) Cyfarfod y clerch yn Nolgellau – cafwyd adroddiad gan y clerch am yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.

c) Heddlu Gogledd Cymru

i) Darllenwyd adroddiad gan Arolygydd Dros Dro'r Heddlu yn egluro y bu gostyngiad sylweddol mewn Trosedd ac Anhrefn yn ardal de Gwyned. Roedd y nifer o Swyddogion Cefnogi Cymuned wedi cael eu cynyddu ac roedd fwy o staff wedi ei lleoli yn yr orsaf yn Y Bala.

ii) Cafwyd manylion am eu hymgyrch i leihau galwadau diangen i Ganolfannau Cyfathrebu'r Heddlu.

ch) Un Llais Cymru.

Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 25/9/13 am 7.00y.h.

d) Tai Clwyd.

Copi o'i 'Adroddiad Blynyddol 2012-13'.

iv) Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/72/227 - Cynllun trydan ddŵr. Llyn Arenig Fach.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

Materion Ariannol.

Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda'r cadarnhad olaf ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad'.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) UHY Hacker Young (archwilwyr allanol y cyfrifon)
- ii) Cyflog y clerc (Gorffennaf i ddiwedd Medi)
- iii) CTHEM (Gorffennaf i ddiwedd Medi)
- iv) John Roberts (archwilydd mewnol y cyfrifon)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Talybont. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Medi.

Unrhyw Fater Arall.

Parcio dros nos yn y cilfanau ar y A494, ger Llanycil.

Derbyniwyd e-bost gan y Cyng. Alan Evans yn gofyn am gefnogaeth i'w gais i gael rheolaeth ar aros dros nos yn y cilfanau. Cytunodd y cynghorwyr gyda'i sylwadau a gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o gefnogaeth i'r Adran Cefnffyrdd.

Materion i'w anfon i sylw Cyngor Gwynedd:

Gwter ger Fedw Arian Isaf, Bala.

Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r adran briffyrdd gan fod y gwelliannau i'r gwter heb ddatrys y problem.

Safle casglu ysbwriel ger Y Fron, Parc.

Gofynnwyd i'r clerc i ail gysylltu â'r Cyngor gan na chafwyd ymateb i'r ymholiadau diwethaf.

Grid yn rhydd ger Cae Gwernog, Celyn.

Derbyniwyd cwyn bod un o grids y gwter yn rhydd ac roedd angen i gerbydau groesi i ochr arall y ffordd i'w osgoi.

Graig yr Ieir ger Cefnbodig, Llanycil.

Ar ôl i'r ffordd gael ei ail wynebu roedd bwlch mawr rhwng y ffordd a'r man pasio. Gofynnwyd i'r clerc ofyn a oedd posib lefelu darn rhwng y ffordd a'r gulfan cyn i rywun wneud difrod i'w cerbyd.

Dwr ar y ffordd rhwng Pant Neuadd a Beudy Newydd, Parc.

Derbyniwyd cwyn bod dŵr yn casglu ar y ffordd.